

LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR
GWAITH POWDWR COOKE'S PENRHYNDEUDRAETH (1933-79)

Cyfwelai: VN016 Mrs Susie Jones (Griffiths)
Dyddiad: 28 Chwefror 2014
Cyfwelydd: Helen Ellis ar ran Archif Menywod Cymru
Trawsysgrif: Catrin Stevens

There is an English summary of the interview following the Welsh text

Dechreuodd Susie weithio yng ngwaith powdwr Tachwedd 1933 ychydig ddyddiau ar ôl cyrraedd ei 14 oed. Roedd yn rhyw fath o forwyn fach tra roedd yn yr ysgol am 3 ceiniog yr wythnos. Cafodd ei hanesmwytho'n arw pan gyrhaeddodd yr adran o'r oedran yma – roedd yn oes pan oedd rhai yn ennill tipyn o geiniogau am gael gafael ar forwynion bach i hwn a'r llall. Roedd rhywun wedi son am Susie Griffiths – gan i berson plwyf ddod i'w thŷ o gyffiniau Bethesda i gymell job iddi. Gan fod ei mam yn wraig weddw, a phedwar o blant ganddi ac yn wael ei hiechyd, a hithau'n ferch, roedd rheswm iddi fod wrth law i'w helpu. Ond roedd ganddi frawd hŷn na hi, ond roedd ef wedi hwylio am Ganada trwy gynllun Salvation Army, yn 16 oed ar y pryd. Dyna pam roedd hi eisiau gwaith yn y ffatri leol.

Pan gladdwyd ei thad bu'n rhaid iddi hi fynd i Ro Wen, Conwy efo teulu ei thad am dipyn a dechreuodd fynd i'r ysgol yn Ro Wen; roedd wedi bod yn ysgol Maenofferen ar y dechrau un cyn i'r teulu symud i'r Penrhyn. Pan ddaeth adre o Ro Wen aeth i ysgol Penrhyn. Hynny tua 1928. Un mis ar ddeg oedd ei chwaer ieuengaf pan gollwyd ei thad. O Lanfrothen y deuai ei mam yn enedigol.

Bu'n gweithio fel morwyn fach i Miss Rees Hyfrydle, chwaer y Doctor Rees ac roedd Ifan Rees yn gwneud dramâu. Roedd Tom Rees yn glerc yn y stesion ym Minffordd a'i gartref ef oedd Hyfrydle – gŵr gweddw oedd e, a daeth ei chwaer i gadw cartref iddo fe. Roedd Miss Rees yn mynd o gwmpas tai yn gwerthu staes – Spirella – roedd ganddi gês yn llawn ohonynt.

4.05

Cafodd waith yn y ffatri – roedd y ffatri yn ddwy ran, y rhan gyntaf yn gwneud *Mining Safety Explosives* a'r llall yn Cooke's. Y criw ieuengaf oedd yn gweithio yn y *detonators department*, nid yn handleo *dets* ond yn paratoi'r ? ar gyfer y *dets*. Ac yna yn symud i fyny yn ôl eich oed. Mae'n cofio un digwyddiad – i berson oedd yn hŷn na hi, gael gwaith yn y rhan yr oedd hi i fod i symud nesa iddo. Fe gynhyrfodd y rest o'r criw, gan y byddent hwythau ddim yn cael eu symud chwaith, - doedd dim i'w wneud ond mynd i'r offis gyda'i gilydd i gwyno. Gyda llaw roedd office Miners yn y pen yma wrth y giat – y *time* offis ar y chwith a'r *main* offis ar y dde. Y ddau oedd yn gofalu am y rhan yma o'r gwaith oedd Mr Eden a Mr Lovet, a phan gyraeddodd ddrws yr offis dim ond y hi oedd ar ôl ac meddai Mr Lovet '*I don't think much of your supporters Susie*'. Wrth son am y dynion pwysig noda mai fel hyn y bydden nhw'n sôn amdany'n nhw wrth iddyn nhw ddod o gwmpas y gwaith – y dyn gwyn a'r dyn du, gan fod un â gwallt wedi britho a'r llall â gwallt du.

Nifer y gweithwyr: tua 10 yn y *wire room*, yn y darn nesaf roedd tuag ugain+, ond yn y rhan yn handleo *detonators* roedd yn flychau bychain unigol – celloedd i gyd o dan yr un to. Yna yn y *packing*, roedd 5-6 fan honno. **Roedd yn amser difyr pan oeddent yn gweithio gyda'i gilydd – canu gyda'i gilydd ambell brynhawn, neu stori yn cael ei gwneud i fyny ei hun. Cawsant hanes aml garwriaeth wedi mynd yn fflwt. Mae'n cofio un oedd yn cadw trefn arnynt - byddai'n gofyn iddynt o ble yn y Beibl yr oedd ambell adnod yn dod.**

7.45

Doedd y lle dechreuodd hi weithio yn y gwaith ddim yn beryglus o gwbl – roedd *coils* mawr o *wires* – weiran mewn gwyn a choch - yn dod i fyny i'r *wire room*. Roedd mashin yno a'i gwaith hi ac un arall oedd torri'r *wires* oddi ar y *coils* yn feintiau gwahanol. Roedd y gweddill ohonynt yn coilio'r *wires* yma – dwy weiran efo'i gilydd ac yn gwneud ffigwr wyth allan o'r rhain. Ar ôl iddyn wneud bwndal o ddeg roedd y rhain yn cael eu pasio ymlaen wedyn i rai oedd yn stripio dau ben i bob weiran, y pen uchaf i ddal yr het – y *fusette* a'r darn nesaf ychydig yn fwy fel bod hwnnw'n glir i gael ei destio ar ôl i'r *fusette* gael ei osod arno fo. Roedd y *fusette* yn yr adran lle roedd mwy o gyflog. Roedd un ochr i'r sied honno yn gosod *fusettes*, ac yn eu sodro – bu hi'n gwneud hynny. Merched oedd yn sodro – jyst *edges* bach, ac yn aml iawn byddai yna glec!

Yn y top yr oedd y celloedd – rhyw 20 yn gweithio yno, dwy wrth bob bwrdd. Roedd hi tua 15-6 oed yn cael gweithio ar y *dets*. Ar ol eu sodro roedd angen pitsho rownd y top, ac yna eu testio. Wedyn roedd y rhain yn mynd i fyny i adran y *detonators*. Bu hi'n gwneud y gwaith testio hefyd. Cael eu symud i fyny yn dibynnu ar rywun yn gadael. Aeth yn ei blaen i'r lle *detonators* ac o fan'no i'r lle'n eu testio yn y top, ac yn crimpio gwaelod y detonator. Yna byddai honno'n mynd ymlaen i roi rwber ar y lle roeddech chi wedi'i grimpio; wedyn i'w hail-destio, ac o fan'no i gael ei phacio. Roedd rhai o'r merchaid yn *chargehands*. Y bosys oedd y dyn gwyn a'r dyn du!

Cafodd hi a'i ffrind Myfi, eu symud i'r *shearing* wedyn, yn gosod y *cartridges* powdwr mewn gorchudd o soda – mae'n debyg mai yn y pyllau glo y câi'r rhain eu defnyddio. Yma roeddent yn gweithio fel tîm a'u cyflog dipyn yn uwch – *piece-work* – y mwya y byddent yn llwyddo i'w wneud mwyaf y caent eu talu.

13.10

Daeth y rhyfel a bu hi'n llenwi *hand grenades*, tair shifft a gwneud llawer o ffrindiau newydd. Caiff ei hatgoffa o hen bennill – ei ddyfynnu. Ymhlith y gweithwyr newydd roedd sawl seren – sonia am un gwr o'r Blaenau ond ni all gofio'i enw. Roedd y powdwr wedi cael ei ddatrusio? yn barod – roedd ffram fawr yn dod i chi a thop pren arni hi a byddai 25 bwndel o 4 weiran – roedd yn rhoi y bagiau papur am y rheiny, troi hon ar ei hwyneb a rhoi'r cartridges i mewn trwy'r tyllau yn y top pren i'r ffram. Yna roeddech chi'n ei llenwi gyda'r powdwr a'r soda, ac roedd mashîn yn ei dyrnu fel hyn i'w llenwi hi i fyny. ... **'Dwi'n meddwl eu bod nhw wedi pigo rhai o'r *dets* i fynd i fan'no, am eu bod yn gwybod y caen nhw waith allan (ohonyn nhw). Roedd hyn yn gyfle iddyn nhw gael mwy o gyflog.'** Yna bu'n llenwi *hand grenades*. **Adeg y rhyfel roedd yn rhaid ufuddhau i orchmynion rhag colli gwaith a oedd iddynt ar garreg eu drws.** Tair shifft – un trwy'r nos – wyth awr y shifft. Yr adeg honno roedd rhwng 600 a 700 o weithwyr yno. Merchaid oedd y rhan fwyaf yno. Roedd chwech ohonynt yn gweithio ar yr *hand grenades* a dyn yng ngofal. Yna aeth yn ôl eto i'r *packing*. Cred mai'r *hand grenades* oedd y gwaith caletaf er bod pob bocs roedden nhw'n ei llenwi yn pwysu 50 (pwys?). Caent eu hanfon mewn magazines i fyny i'r Alban.

17.58

Ar ol y rhyfel, roedd yn dal i weithio yno – yn y *packing* ond gan orffen yn y lab. **'Fi oedd yr unig hogan oedd yn y lab.'** Roedd hyn yn yr 1960au/70au. Y lle *chemist* oedd y lab – yno roedden nhw'n testio gwahanol batshys o bowdra cyn iddyn nhw fynd i lawr, ac yn mesur gwahanol cartridges ac yn y blaen. Cafodd glec yn fan'no hefyd. Roedd *test-tubes* yno ac ychydig bach o asid yn y gwaelod a handlen ar y top ac roedd ganddynt wydrau bach. **Roeddent yn rhoi ychydig o'r powdwr yma yn hwnnw i weld sut oedd o'n gweithio mewn tymheredd ac fe fethodd hi â chodi'r peth a chafwyd clec. Llosgodd ei braich ond doedd dim marc na dim byd i'w weld. Cafodd ei gyrru at y nyrs a oedd i lawr wrth ymyl y cantîn. 'On ni'n lwcus iawn ohonyn nhw'. Un nyrs oedd yno ar y tro ar gyfer pob shifft. Cofia Nyrs - Mrs Morris o Port a Mrs Roberts, Minffordd (gwraig Ifan David) gynt Thomas – hi oedd y brif nyrs.** Ar ôl i'r nyrsys orffen yno derbynion nhw bobl oedd â *First Aid* wedyn. Doedd hi ddim yn gorfod gwneud *First Aid* – dim ond rhai pobl oedd yn dysgu hynny.

Roedd Susie fel *Jack of all trades* yn y gwaith. Roedd hi'n meddwl mai dyma sut roedden nhw'n mynd i gael gwared ohoni trwy ei hanfon o un man i'r llall. Cafodd ei hel allan o'r *packing* – Yno roedd un ddynas fel *chargehand*, - ei gwaith hi oedd, ar ôl i chi llenwi eich bocs pacio byddai hi yn ei bwysu a tsecio bod y pethau iawn yn y boscys. Un diwrnod roedd 11 ohonynt yn y *packing* (ar *piece work*) (roedd rhai wedi cael diwrnod arbennig i ffwrdd) – a

chafodd dwy ohonynt (hi ac un arall) *staff grade*. Allwch chi fentro, *doedd* hi ddim yn braf iawn arnyn nhw'u dwy. Dwedon nhw na fydden nhw'n ei gymryd e ond yn y diwedd daeth pawb iddo fe. Roedd bod yno yn fwy o *privilege* na gweddill y gweithwyr.

22.45

Bu'n perthyn i'r Undeb yn y gwaith – ddim trwy'r amser. **Doeddwn i ddim yn llawar o ddynas Undeb.** Llenwi bwlch o hyd - 'Neith Susie'r tro'. Roedd yr Undeb yn reit gryf yno ond nid yw'n cofio pa un. Yn ystod y cwthrwfl uchod gyda *staff grade*, fe ffindiodd hi pan oedd y cesys ar y rolyrs, bod y seis anghywir ar y bocs roedd hi wedi'i lenwi,- roedd y sawl oedd yn mynd â'r bocsys oddi wrthach chi i fod i tsecio beth oedd i mewn a beth oedd y tu allan iddyn nhw cyn eu cau nhw. A dwedodd Susie wrthi 'O na,' meddai hi doedd y ffasiwn beth ddim wedi digwydd. Ymhen hir a hwyr daeth y ces yn ôl a'r label i mewn ynddo, a chafodd Susie ei hel allan o'r *packing*. Wedyn bu yn y lle tsecio allan – roedd yn well iddi hi. Dyma pam y cafodd hi *staff grade* (?).

Bu'n gweithio yno am 46 mlynedd (ond dau ddiwrnod) - petai wedi aros am y ddau ddiwrnod arall byddai wedi cael blwyddyn yn fwy o bensiwn. Ond pan aeth i holi gwrthodwyd hi.

Daeth ar draws nifer o gymeriadau annwyl iawn yn y gwaith. **Adeg y rhyfel roedd rhai yn dod i'r gwaith gan feddwl y byddent yn help i ddod â'r rhyfel i ben. Roedd rhai yn rhoi eu henwau ar y bocsys ac yn cael ateb, yn wir digwyddodd i un briodi bachgen, trwy roi ei henw ar y bocs – daeth ef i'r pentref a dod i weithio yn y gwaith. Mae e'n dal i fyw yn y pentre heddiw – mae hi wedi'i chladdu!"**

Roedd carwriaethau yn y gwaith ond nid dyma lle cafodd Susie ŵr.

Daeth dwy ochr y ffatri yn un yn y diwedd a bu hi'n gweithio yn y darn Cooke's o'r gwaith sef cynhyrchu – *gelignite* ac yn pacio ac yn y labordy. Roedd ganddi bedwar o ffrindiau a thri ohonynt yn cael eu pen-blwydd yn yr un mis. Pan oedd pen-blwydd un byddai'n prynu bar o siocled i'r gweddill. Enwi'r criw.

'Ni chefais ysgol uwch na choleg ond bu gweithio yn y gwaith yn brofiad ac yn agoriad llygad ac roedd cymeriadau annwyl a chlyfar i'w canfod yn ein mysg. ... "Trwy chwys dy wyneb y bwyteï fara"

28.00

Sôn am sut roedden nhw'n symud pethau o gwmpas yn y gwaith – mewn bwgis – tebyg i *cable cars* (yn Llandudno) yn cario pethau uwch eu pennau. **Roedd rhai 'cardia' yn gweithio yno. Daliodd un ddafad a'i rhoi yn y bwgi! Cafodd yr un agorodd e i fyny yn y top sioc.**

Un peth arall ddigwyddodd yno – cawson nhw ddwy neu dair o *German machines* yno, a *Germans* i ddangos iddyn nhw sut i'w gweithio. Dim ond un bachgen o Blaenau oedd yr unig un oedd yn gallu siarad German efo nhw. Roedd y peiriannau hyn yn gwneud y gwaith

yr oedd y merched wedi bod yn ei wneud – lapio’r *cartridges* a.y.y.b. Rhestri’r bobl oedd yn gweithio yno – chemist, ysgrifenyddion, clercod, pobl cyllid – swyddi da i bobl.

‘Dyna i chi golled i ardal – ac mae’n dal i hitio heddiw. Cofiwch chi “hen ferched gwaith powdwr” oeddau ni gin yr ardal.’

Roedden nhw’n dod o bob man yno – o Bwllheli a llond car o ganolbarth Cymru ac yn lodgo yn Penrhyn.

Petaech chi wedi meddwl am y peryg fydddech chi ddim wedi mentro yno. Diwedd yr wythdegau (1989) bu tanchwa a lladdwyd nifer o weithwyr. **Pan oedd Susie tua 13 oed collodd Bessie Humphreys hanner ei llaw yn y gwaith ond daeth yn ôl i weithio yno. ... ‘Un bora roeddau ni’n pasio – roeddau ni’n pasio rhai o’r cytia – a gweiddi “*Good morning*” – pawb ar ein gilydd ‘te, ...ac wedyn ... roeddau ni yn dechrau gweithio a dyma ni glec. Roedd y cwt wedi mynd i fyny a ninna newydd ei basio fo ynte.’** Lladdwyd tair o genod a dau foi. (eu henwi – Eric, ac un arall, Laura o ?, Alys o Lanfrothen, a Annie o Ben Llyn). Sôn hefyd bod dyn o Port wedi colli’i olwg yno efo asid.

Yn ystod y rhyfel bu Workers Playtime ddwywaith yn y gwaith – y cantorion a thîm o bobl yn rhoi adloniant iddynt.

Mae ganddi lawer o luniau ohoni mewn ciniawau – yn ei dangos yn derbyn gwobrau am wasanaeth – **‘Fi oedd y gynta i gael’ ... wats gafodd hi am 25? o flynyddoedd. Nid un aur.** Cafodd ei llun yn y papur gyda Mr Cooke yn ei chyflwyno iddi ym Meddgelert.

Pan ymddeolodd cafodd loced ac mae’n dal yn y bocs! Mr Cooke ddechreuodd y gwaith – roedd yn byw yn Llanbedr ac yna gwerthodd ef i ICI. Mae’r teulu yn dal o gwmpas. Sonia am Mr Lovet a Mr Eaton a oedd yn byw yn lleol hefyd.

English summary

COOKE’S POWDER FACTORY, PENRHYNDEUDRAETH (1933-79)

Interviewee: VN016 Mrs Susie Jones (Griffiths)
Date: 28 February 2014
Interviewer: Helen Ellis on behalf of Women’s Archive Wales
Transcript: Catrin Stevens

Susie started work in the powder factory in November 1933, a few days after her fourteenth birthday. She had worked as a maid when she was in school for thruppence a week and had then been told about a similar job in Bethesda. However, her mother was a widow with four children and in poor health. It made sense that Susie, being a girl, was on hand to help out. Her older brother had sailed to Canada on a Salvation Army scheme at the age of 16. She preferred to go to work in the local factory.

Her mother was born in Llanfrothen. Susie went to school at Maenofferen. When her father had died she'd had to move to Ro Wen, Conway to live with his family, and had attended school there for a while. By the time she returned home, her family had moved to Penrhyndeudraeth, and she attended Penrhyn school circa 1928. Her sister was 11 months old when her father died.

Susie had worked as a maid for Miss Rees, who was the housekeeper at Hyfrydle for her widower brother Tom Rees, a clerk at Minffordd station. They had two other brothers – a Doctor Rees and Ifan Rees who was a dramatist. Miss Rees sold *Spirella* corsets door-to-door from a suitcase.

4.05 Susie got a job in the factory which was divided into *Mining Safety Explosives* and *Cooke's*. The youngest workers started in the detonators department and Susie recalls an incident when one worker's promotion to another department caused consternation and a deputation set-off towards the office to complain. However, when she reached the office door, Susie realised she was suddenly alone. Mr Lovett (management) said: "*I don't think much of your supporters Susie.*"

The Miners Office was at one end near the gate – the Time Office on the left and the Main Office on the right.

There were 10 workers in the *wire room*, more than 20 in the next section and small individual cells for handling detonators. In the packing area there were 5-6. It was quite an entertaining time, singing together and telling stories and tales about people's love lives. Susie remembers one worker who kept them in order by testing their knowledge of Bible verses.

7.45

Susie didn't work in a dangerous part of the factory. She took wires from large coils of white and red wire and used a machine to cut them into various lengths. These were then coiled in pairs in a figure-of-eight and passed on for the ends to be stripped and a *fusette* fitted. The girls who soldered the *fusettes* were paid more money. Susie remembers that when she soldered *fusettes*, there would quite often be loud bangs.

After the soldering, pitch was put around the top before testing. (Susie also worked as a tester.) The next process involved the detonators department. There were cells for 20 workers – 2 at each bench. Susie was 15-16 years old when she worked on the *detonators*. Promotion was dependant on somebody else leaving.

Susie and her friend Myfi, were moved to the *shearing*, placing powder cartridges in a soda cover – these were used in the coal mines. This work was team work and piece work where they could be paid well.

13.10

When war came, Susie filled hand grenades and made many new friends on shift work. At the time there were between 600-700 workers there – mostly girls. There were six working on the hand grenades and a man in charge. It was the hardest work – however, when she moved back to packing hand grenades, each box weighed 50 pounds. They were then sent in magazines to Scotland.

17.58

Susie continued there after the war – firstly in packing but finished up in the lab where she was the only girl. This was the 1960s/70s. It was a chemistry lab where powders and cartridges were tested. She suffered a burnt arm when powder being added to acid for testing caused a small explosion. She was sent to the nurse. There was one nurse for each shift - Mrs Morris from Porthmadog and Mrs Roberts from Minffordd. When the nurses finished at the factory they were replaced by members of staff/workforce trained in first-aid.

At work, Susie was a Jack of all trades. She was sent to work in many different departments. While working in *packing* she was downgraded to *staff grade*.

22.45

Susie was a union member sporadically. During the *staff grade* incident (above) she made an error whilst packing which was missed by the checker and she was moved on to the check-out department.

Susie worked at the factory for 2 days short of 46 years. If she'd worked those additional 2 days she would have received a year's worth more pension.

Susie encountered many endearing characters at work. During the war, some girls would write their names and addresses on the boxes (of munitions) and received replies. In this way one girl ended up getting married. Her husband still lives today in the village.

There were many romances at work although this isn't where Susie met her husband.

Eventually, both sides of the factory amalgamated and Susie worked on the Cooke's side, producing gelignite, packing and working in the laboratory.

Although she had no higher education Susie regards her working life as a valuable experience and a revelation.

28.00

She recalls how a prankster caught a sheep and placed it in the production line to provide a shock for workers further down the line.

Another occurrence Susie remembers is the arrival of new machines from Germany along with some Germans to show the workers how to use them. Unfortunately, only one boy from Blaenau Ffestiniog could converse with them. These machines replaced many girls. Susie believes the factory was a good employer, providing many good jobs for people who came from as far away as Pwllheli and mid Wales for work.

Susie spares a thought for the dangerous nature of the work. She remembers a relatively recent fatal explosion in 1989 and other accidents during and before her time working at the factory.

During the war, workers were entertained by Workers' Playtime who visited twice.

Susie has numerous photographs of company dinners and was presented with a watch for 25 years' service. She also has a locket, still in its box, which was presented to her on her retirement.